# Rhowch Gynnig Arni

## Cwestiynau cais

Gallwch ddefnyddio'r ffurflen yma i ddrafftio eich cais.

**Mae angen cyflwyno'r holl atebion ar y ffurflen gais ar-lein ac nid fel dogfen atodedig.**

Gellir dod o hyd i ddolen i'r ffurflen yma.

### Yn eich cais, bydd angen ichi ateb y cwestiynau canlynol:

### Am eich gweithgarwch

Rhowch ddisgrifiad byr o'r gweithgarwch neu'r gweithdy yr hoffech gymryd rhan ynddo (250 gair ar y mwyaf)

Disgrifiwch pa sgiliau neu wybodaeth o'r gelfyddydol fynegiannol fydd yn cael eu datblygu gan y disgyblion (250 gair ar y mwyaf)

Pryd mae eich gweithgarwch yn digwydd? Ydy eich gweithgarwch yn un sesiwn neu nifer o sesiynau? Fydd eich gweithgarwch yn digwydd yn ystod neu'r tu allan i oriau ysgol? (250 gair ar y mwyaf)

### Costau

Beth yw cyfanswm cost ffioedd proffesiynol artistiaid, Ymarferwyr Creadigol a sefydliadau celfyddydol gan gynnwys unrhyw gostau teithio i'r ymarferwyr os oes angen?

Ble bydd y gweithgarwch yn digwydd? Os nad yw ar dir yr ysgol, sut bydd y disgyblion yn cyrraedd yno? Beth yw cost llogi bysiau neu gostau cludiant cyhoeddus arall os oes angen? Os nad yw'n berthnasol, rhowch £0.

Pa adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r gweithgarwch a'u cost? Ni all cost adnoddau fod yn fwy na £500. Os nad yw'n berthnasol, rhowch £0.

Os oes angen, beth yw cost llogi offer sydd ei angen i gyflawni'r gweithgarwch? Os nad yw'n berthnasol, rhowch £0.

Cadarnhewch y byddwch yn rhoi 10% cyfatebol o'r costau gan roi manylion am sut y bydd y cyfraniad yn cael ei wneud, er enghraifft arian parod, cefnogaeth mewn nwyddau ac ati.

### Disgyblion

Yn fras, pa ganran o'ch cais sy'n canolbwyntio'n benodol ar ymgysylltu â'r grwpiau canlynol?

Pobl 0-11 oed

Pobl 12-16 oed

Beth yw nifer y disgyblion sy'n cymryd rhan o bob grŵp blwyddyn (derbyn – blwyddyn 11)

## Celfyddydau

Defnyddiwch ganran i nodi cyfran eich gweithgarwch sy'n ymwneud â phob un o bum disgyblaeth y celfyddydau mynegiannol (cerddoriaeth, celf, drama, dawns, ffilm a'r cyfryngau digidol). Rhaid i'r rhain at ei gilydd fod yn 100% megis:

Celf: 0%

Drama: 50%

Dawns: 20%

Ffilm a'r cyfryngau digidol: 0%

Cerddoriaeth 30%

## Partneriaid

Rhowch enwau'r ysgol/ysgolion sy'n ymwneud â'r gweithgarwch.

Rhowch y cod ysgol 7 digid ar gyfer pob ysgol sy'n cymryd rhan – gwiriwch: [Fy Ysgol Leol (gov.wales)]

Beth yw enw'r sefydliad celfyddydol/diwylliannol neu enw'r ymarferydd creadigol a fydd yn cyflawni'r gweithgarwch?

## Iaith

Pa ieithoedd y byddwch yn eu defnyddio i gyflawni eich gweithgarwch?

Esboniwch pam y bydd y gweithgarwch yn cael yr effaith a nodwch ar y Gymraeg.

## Dogfennau ychwanegol

Ni fyddwn yn derbyn dogfennau ychwanegol fel rhan o'ch cais. Mae Rhowch gynnig arni wedi'i gynllunio i fod yn gyflym ac yn hawdd ei ddefnyddio, dylech allu dweud popeth y mae angen inni ei wybod drwy ateb y cwestiynau ar y ffurflen gais ar-lein.

## Amodau grant ychwanegol

Os ydych wedi derbyn grant bydd angen ichi ei dderbyn drwy fewngofnodi i'ch cyfrif ar borth Cyngor Celfyddydau Cymru. Mae angen ichi hefyd wirio eich cyfrif i weld a oes amodau ychwanegol y mae angen eu bodloni er mwyn inni allu rhyddhau eich taliad.

## Adroddiadau diweddu

Ar ôl i'ch gweithgarwch ddod i ben, bydd angen ichi gyflwyno adroddiad byr o'r hyn a gyflawnwyd drwy gymryd rhan. Gallwch gynnwys lluniau a dyfyniadau gan y disgyblion hefyd os ydych chi'n hapus inni eu gweld. Ar ôl ichi gyflwyno eich ffurflen, bydd eich grant ar ben a gallwch wneud cais eto.

**Mae angen cyflwyno'r holl atebion ar y ffurflen gais ar-lein ac nid fel dogfen atodedig.**

[Gellir dod o hyd i ddolen i'r ffurflen yma.]